Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Aran Hall

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Aran Hall

Mae Aran Hall yn ysgol arbennig annibynnol sydd wedi'i lleoli'n agos at Ddolgellau yng Ngwynedd. Mae'r ysgol yn un o'r chwe ysgol arbenigol sy'n gweithredu ledled Cymru a Lloegr gan SENAD Group. Mae'r ysgol yn darparu addysg, gofal a therapi ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 19 oed sydd ag ystod o anableddau dysgu, cyflyrau'r sbectrwm awtistig ac ymddygiadau heriol cysylltiedig.

Mae 11 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd, y mae pob un ohonynt yn fechgyn sy'n byw yn y cartref plant sy'n rhannu safle'r ysgol. Mae gan bron bob un o'r disgyblion gynllun addysg, iechyd a gofal (CAIG) ac yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion gynllun datblygu unigol (CDU) ac maent yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae bron pob un o'r disgyblion o gefndiroedd Saesneg eu hiaith.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Ers yr ymweliad diwethaf, mae arweinwyr wedi gwneud cynnydd cryf yn gwella arfer yn yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu, a gweledigaeth glir ar gyfer datblygiad strategol yr ysgol.

Mae'r ysgol yn meithrin gwydnwch emosiynol ac annibyniaeth disgyblion yn dda trwy ei rhaglen 'Achieve!'. Mae disgyblion yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'r rhaglen ac yn cael eu cymell gan ei hymagwedd raddol at gydnabod a gwobrwyo ymddygiadau cadarnhaol.

Mae staff yr ysgol yn gweithio'n agos gyda'u cydweithwyr yn y cartref preswyl cysylltiedig i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu diwallu'n dda. Mae gweithio mewn partneriaeth a chyfathrebu rhwng staff yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion i gymryd rhan mewn ystod addas o weithgareddau, cymwysterau ac achrediadau, sy'n cyd-fynd yn dda â'u hanghenion, eu galluoedd, eu diddordebau a'u llwybrau yn y dyfodol. Er enghraifft, mae disgyblion yn sefyll cymwysterau mathemateg a Saesneg ar wahanol lefelau o lefel mynediad, medrau swyddogaethol a TGAU. Hefyd, mae disgyblion wedi dylunio ac adeiladu cwt ieir ar gyfer wyth iâr wedi'u hachub, sydd bellach yn byw ar dir yr ysgol.

Mae'r perchennog yn rhoi ystyriaeth briodol i'r canllawiau ar gofrestru a'r canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion annibynnol yng Nghymru.

Mae'r ysgol yn bodloni Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2024 a werthuswyd yn ystod yr ymweliad hwn.

### Meysydd i'w datblygu

Er mis Mawrth 2023, mae'r ysgol wedi gwneud gwelliannau pwysig yn ei phrosesau asesu gan eu galluogi i ddeall cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, megis dechrau rhoi'r prosesau hyn ar waith y mae'r ysgol, ac felly mae'n rhy gynnar i roi sylwadau ar eu heffaith.

## Argymhellion

### Dylai'r ysgol:

A1 Barhau i werthuso trefniadau asesu ar lefel ysgol gyfan i wella dealltwriaeth staff o gynnydd disgyblion mewn medrau ar draws y cwricwlwm

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

### A1. Sicrhau bod prosesau gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n glir ar y meysydd i'w datblygu a nodwyd

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf yn erbyn yr argymhelliad hwn.

Mae arweinwyr wedi mireinio cynllun gwella'r ysgol, sydd bellach yn canolbwyntio'n glir ar bedwar maes penodol i'w datblygu. Caiff cynllun gwella'r ysgol ei gyfleu yn dda i bob un o'r staff.

Mae arweinwyr yn glir ar gyfeiriad strategol yr ysgol a'i chryfderau a'i meysydd i'w datblygu.

### A2. Mireinio trefniadau asesu ar lefel ysgol gyfan i sicrhau dealltwriaeth glir o gynnydd disgyblion mewn medrau ar draws y cwricwlwm

Ers yr ymweliad, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ailgynllunio'i system asesu ac olrhain. Ceir map effeithiol o'r cwricwlwm ysgol gyfan, a gefnogir gan bolisi'r ysgol ar y cwricwlwm, ac sy'n gyson ag ef. Caiff y polisi hwn ei sgaffaldio gan Gwricwlwm i Gymru, mae'n trefnu darpariaeth ar gyfer profiadau dysgu ym mhob un o'r chwe maes dysgu a phrofiad (MDPh), ac yn rhoi manylion am achrediadau a chymwysterau posibl.

Caiff map cwricwlwm unigol ei lunio ar gyfer pob disgybl, sy'n rhoi manylion am eu rhaglenni astudio a'u hachrediadau cysylltiedig ym mhob MDPh. Mae'r cynlluniau hyn yn cefnogi cynllunio, darpariaeth ac asesu yn hynod effeithiol. Er enghraifft, mae'r ymagwedd unigoledig hon wedi llywio detholiad strategol o gymwysterau ac achrediadau priodol.

Gan ddefnyddio'r mapiau cwricwlwm unigoledig a chynlluniau addysg, iechyd a gofal / cynlluniau datblygu unigol (CDUau), mae'r ysgol wedi llunio cynlluniau addysg unigol (CAUau) ar gyfer pob disgybl. Mae'r rhain yn gweithredu fel dogfennau adolygu tymhorol, sy'n gosod targedau a meini prawf cyflawniad ym mhob MDPh, ac yn cofnodi'r cynnydd a wnaed.

Caiff adolygiadau'r CAU ar gyfer disgyblion unigol eu coladu gan arweinwyr mewn dogfen olrhain ganolog, sy'n darparu cofnod effeithiol o gyrhaeddiad a chynnydd dros gyfnod. Fodd bynnag, er bod y systemau hyn wedi'u cynllunio'n effeithiol i roi trosolwg o'r cynnydd a wnaed yn natblygiad medrau disgyblion, megis dechrau cael eu rhoi ar waith y maent, ac mae'n rhy gynnar i werthuso'r defnydd o'r wybodaeth sydd ar gael i ysgogi gwelliant a chynnydd.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 1.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, a diwylliannol disgyblion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2024.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/08/2024